# ATODLEN 1

## Safonau ar gyfer Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da

### Isafswm rheolaeth tir sy'n adlewyrchu amodau penodol y safle er mwyn cyfyngu ar erydu

**5.**—(1) Rhaid i fuddiolwr—

(a) beidio â chaniatáu, ar unrhyw dir, lefel o figno a rhigoli a fyddai'n achosi i bridd erydu i lawr llethr neu oddi ar y safle, i mewn i gwrs dŵr neu ffordd; a

(b) naill ai ddefnyddio aradr gynion neu osod ffensys gwaddodion i gyfyngu ar erydiad pridd, os nad yw'n bosibl hau cnwd gorchudd ar dir sydd wedi ei gynaeafu yn ddiweddar, neu lle mae'r porthiant neu gnwd gwreiddlysiau wedi ei bori ymaith.

(2) Yn y paragraff hwn—

ystyr "oddi ar y safle" ("*off-site*") yw unrhyw fan sydd y tu hwnt i derfyn cae mewn daliad, gan gynnwys cae arall sy'n rhan o'r un daliad;